Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 14eg Dachwedd 2016

Presennol Gareth Wynne Cadeirydd, Jim Boughton, Gwawr Jones, Janet Charlton, Gareth Parry, Nick Corney, Siân Godbert, Cyng Elizabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau Karen Pugh, Terry Bullock, Marion Betteney, Meirion Owen.

Datgan diddordeb . Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.
Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Hydref 2016.

(1)Yr Heddlu
Nid oedd yr heddlu yn bresennol

[1.1] Cae Chwarae Pentre' Du/Byrddau Picnic
Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.2] Llwybr Tan Dinas/ Byrddau ar gyfer yr Anabl
Penderfynwyd gohirio'r trefniadau nes i'r byrddau picnic gael eu gosod ym Mhentre' Du

[1.3] Cytundeb Rheoli Cae Llan
Nodwyd bod y Cyngor Sir wedi cytuno i beidio gosod taliad rhent o £300.00 y flwyddyn. Y clerc i anfon at Ystâd Gwydr yn gofyn iddynt ystyried yr un trefniant

[1.4] Tynnu Dŵr/Llyn Elsi
Y clerc i dynnu sylw Allied Hydro i gyflwr yr hopper sydd yn ansefydlog a datgan hefyd pryder bod y dŵr y llyn yn isel.

[1.5] Coeden Dderw/ Cae Llan
Y clerc i drefnu cyfarfod gyda swyddog y Cyngor Sir i drafod eu bwriad i ostwng maint y goeden.

[1.6] Baw Cwn/Cae Llan
Nodwyd bod y warden cwn, yn trefnu ymweliad a bod arwyddion newydd i gael eu gosod.

[1.7] Goleuadau Stryd Ffordd yr Orsaf/Glanhau'r Gwydrau
Dywedodd y clerc nad oedd wedi derbyn ateb gan y Parc Cenedlaethol. Y clerc i ddilyn y mater ymlaen.

Y Brif Agenda
[1.8] Materion Cynllunio
[a] Diddymu amod rhif 2 o ganiatâd cynllunio NP4/11/58D 31 Fawrth 2014 I ganiatáu defnydd parhaol fel anecs. Ffermdy'r Royal Oak, Betws-y-Coed
[b]Newidiadau ac estyniad i greu 2 fflat newydd, Y Felin, Betws--y-Coed
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[1.9] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddosbarthwyd) a wnaed yn ystod mis Hydref 2016.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Hydref 2016.

[2] Modur wedi ei Adael

Nodwyd bod modur [OWO2 KTV Peugeot Glas] wedi ei adael ymhen yr allt pen ucha' i Modurdon Betws. Y clerc i anfon neges ymlaen i'r Cyngor Sir.

[2.1] Eglwys Santes Fair/Gwasanaeth Carolau'r Pentref

Cytunodd y Cyng Nick Corney I gynrychioli'r Cyngor yn y Gwasanaeth Carolau ar yr 11eg Ragfyr am 6 .30 yr hwyr

[2.2] Damwain/Rhaeadr Ewynnol

Cyfeiriodd y clerc at ohebiaeth gan UKGI Liability Claims yn datgan nad oedd y cwmni yn bwriadau gwrthwynebu cyfrifoldeb am y ddamwain I Mr Savage ar yr 8fed Ebrill 2016.

[2.3] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Gwobrau Chwaraeon Bwrdeistref Sirol Conwy, Gwahoddiad i Venue Cymru 25ain Dachwedd 2016.

[b]Gwahoddiad i Sul Dinesig y Cadeirydd, dydd Sul 18fed Ragfyr 2016 yn Eglwys Blwyf Santes Catherine a Ioan Fedyddiwr, Ffordd yr Orsaf, Hen Golwyn am 2.30 y prynhawn.

Cadeirydd _____